Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Athrofa Padarn Sant (APS)

ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE

Table Rheoli Dogfennau

Teitl y Ddogfen:	**Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Athrofa Padarn Sant (APS)**
Awdur(on) (enw, teitl swydd a sefydliad):	Kathryn Delderfield, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Athrofa Padarn Sant
Rhif y Fersiwn	2
Statws y Ddogfen:	Cymeradwywyd
Dyddiad Cymeradwyo:	22 Ionawr 2024
Cymeradwywyd gan:	Bwrdd Gweithredol Padarn Sant
Dyddiad Dod i Rym:	Ionawr 2024
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:	Mehefin 2025
Fersiwn a Ddisodlwyd:	1
Dogfennau Cysylltiedig:	Datganiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru (drafft) Siarter Urddas yr Eglwys yng Nghymru Polisi Disgyblu Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru Polisi Disgyblu i Ddysgwyr Rheolaidd Padarn Sant Polisi Disgyblu i Ddysgwyr Achlysurol Padarn Sant

Hanes y Ddogfen

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Nodiadau ar Ddiwygiadau
1	9 Gorffennaf 2019	Kathryn Delderfield	

2	Rhagfyr 2023	Kathryn Delderfield	• Ailysgrifennu'r rhan fwyaf ohono

Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Athrofa Padarn Sant

1. Cynnwys y Polisi

1. Cynnwys y Polisi
2. Cyflwyniad
3. Cwmpas
4. Ein Dull Gweithredu
5. Cyfrifoldebau
6. Rhoi'r Polisi ar Waith

2. Cyflwyniad

Mae Athrofa Padarn Sant yn ymrwymedig i sicrhau bod ein cymuned yn amgylchedd cynhwysol ble y gall ein dysgwyr, ein staff a'r rhai sy'n cyfrannu at ein rhaglen ffynnu, a hynny heb ragfarn na gwahaniaethu. Ein nod yw creu cymuned ble y gall pawb gyfrannu a chael eu gwerthfawrogi am yn nhw eu hunain. Credwn fod amrywiaeth yn cyfoethogi'r gymuned gyfan.

Cynlluniwyd ein holl raglenni i ddyfnhau'r ffydd Gristnogol. Felly, bydd cynnwys y rhaglenni hyn yn rhoi blaenoriaeth i'r ffydd Gristnogol, a'i gwerthoedd, gan gynnwys cydnabod bod pob unigolyn wedi cael ei greu ar ddelw Duw ac y dylai gael ei drin gyda chydraddoldeb, parch, urddas a derbynioldeb.

Mae ein deull gweithredu yn adeiladu ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy'n creu fframwaith cyfreithiol i ddiogelu pobl rhag gwahaniaethu.

3. Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob aelod o staff, dysgwr, cyfrannwr at raglenni, contractiwr ac unrhyw un arall sy'n gysylltiedig â swyddogaethau Athrofa Padarn Sant.

Mae'r polisi hwn yn seiliedig ar ymrwymiad Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant:

Cydraddoldeb:

Rydym yn ymroddedig i drin pawb â pharch ac urddas, a darparu cyfle cyfartal o ran cyflogaeth, datblygiad a dyrchafiad. Ni fyddwn yn goddef gwahaniaethu ar sail hil, ethnigrwydd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, oedran nac anabledd. Ar gyfer rhai rolau, mae'n briodol cynnwys gofyniad galwedigaethol sy'n ymwneud â ffydd. Mae'r rhan fwyaf o swyddi cyflogedig Corff y Cynrychiolwyr yn agored i bobl o bob ffydd a'r rhai heb ffydd.

Amrywiaeth:

Rydym yn cydnabod ac yn dathlu cefndir, profiad, a safbwyntiau unigryw pob unigolyn a'r hyn y mae'n ei gyfrannu i'n sefydliad. Mae croesawu amrywiaeth yn cyfoethogi ein gweithle ac yn gwella ein gallu i arloesi.

Cynhwysiant:

Mae cynhwysiant yw ganolog i'n gwerthoedd. Rydym yn ymdrechu i greu amgylchedd ble y gall pawb deimlo ei fod yn cael ei groesawu a'i werthfawrogi a bod ei lais yn cael ei glywed. Rydym yn annog sgwrs agored, cydweithio a rhannu syniadau er mwyn creu gweithle sy'n adlewyrchu ein byd amrywiol.

4. Ein Dull Gweithredu

Mae Athrofa Padarn Sant yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb a darparu amgylchedd ble y caiff pob aelod o'i chymuned ei drin â pharch ac urddas. Byddwn yn cyflawni hyn drwy:

Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon, sy'n cynnwys:

- Helpu pobl i ddeall ystyr y termau hyn, a pha fath o ymddygiad ac agweddau sy'n amhriodol
- Sicrhau bod pawb yn cael ei drin yn gyfartal
- Dileu gwahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol o'r gwaith a'r amgylchedd dysgu.

Hyrwyddo a datblygu cyfle cyfartal, sy'n golygu:

- Lleihau effaith anfantais
- Nodi, deall a bodloni anghenion ein staff a'n dysgwyr

Hyrwyddo diwylliant o gynhwysiant, sy'n golygu

- Creu gweithle/man dysgu ble y gall pobl deimlo'n gyfforddus ac yn hyderus yn bod yn nhw eu hunain.
- Parchu a gwerthfawrogi gwahaniaethau
- Lle y bo'n bosibl, addasu'r amgylchedd i sicrhau bod pawb yn gallu cymryd rhan yn gyfartal.

Hyrwyddo a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl, sy'n golygu:

- Hyrwyddo goddefgarwch a dealltwriaeth
- Mynd i'r afael â rhagfarn
- Esbonio manteision amrywiaeth

Rhoi strategaethau ar waith sy'n ehangu cynrychiolaeth grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol drwy:

- Fonitro data ar nodweddion gwarchodedig
- Gofyn a gwrando ar farn grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
- Defnyddio data meintiol ac ansoddol i lunio cynllun gweithredu parhaus
- Monitro cynnydd yn erbyn targedau

5. Cyfrifoldebau

Mae gan bob aelod o gymuned Athrofa Padarn Sant, gan gynnwys dysgwyr, dysgwyr eraill, gwirfoddolwyr a staff, gyfrifoldeb i ddilyn y polisi ac ymddwyn gydag urddas, cwrteisi a pharch, ac mewn ffordd nad yw'n gwahaniaethau'n anghyfreithlon ar unrhyw adeg. Bydd mynd yn groes i'r polisi yn arwain at gamau disgyblu priodol ac os torrir y gyfraith, bydd yr awdurdod priodol yn cael ei hysbysu o hynny.

Cyfrifoldeb tîm o Uwch-reolwyr Athrofa Padarn Sant yw sicrhau bod y polisi'n cael ei weithredu o ddydd i ddydd.

Bwrdd Gweithredol Athrofa Padarn Sant sy'n gyfrifol am weithredu'r polisi yn gyffredinol.

6. Rhoi'r Polisi ar Waith

Caiff unrhyw achos o fynd yn groes i'r polisi hwn ei gymryd o ddifrif. Dylai dysgwr sy'n teimlo ei fod wedi cael ei drin mewn ffordd wahaniaethol neu'n teimlo nad yw Athrofa Padarn Sant yn bodloni ymrwymiadau'r polisi hwn gyfeirio at Bolisi Cwynion i Ddysgwyr Athrofa Padarn Sant. Dylai unrhyw aelod o staff sy'n teimlo ei fod wedi cael ei drin mewn ffordd wahaniaethol gyfeirio at Bolisi Cwynion Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru. Dylai unrhyw ddysgwr neu aelod o staff sy'n dyst i achos o wahaniaethu gyfeirio at Bolisi Chwythu'r Chwiban Athrofa Padarn Sant. Ymdrinnir â chwynion a gadarnhawyd yn erbyn staff neu ddysgwyr yn unol â'r polisi disgyblu perthnasol.